

## Adroddiad y Prif Arholwr

### Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Hydref 2017

*Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.*

### Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 25

Llwyddo: 9

Braf oedd gweld ychydig dros draean o'r ymgeiswyr yn llwyddo i gyrraedd safon Aelodaeth Sylfaenol yn y rownd hon, a sawl un arall yn llwyddo i gyrraedd y safon mewn un darn, er na lwyddwyd i gynnal y safon honno ar hyd y papur arholiad. Wedi dweud hynny, roedd lefel y cyfieithu llwyddiannus yn amrywio gryn dipyn yn yr hyn a gyflwynwyd, ac er nad oedd fawr neb wedi cael ei lethu'n llwyr gan ofynion y darnau, nid oedd neb chwaith wedi cyflwyno gwaith y gellid dweud ei fod yn taro deuddeg drwyddo draw. Serch hynny, fel mewn sawl rownd bellach, mae modd dweud bod yr ymgeiswyr yn dangos gwell ymwybyddiaeth o ofynion yr arholiad, hyd yn oed os nad yw rhai ohonynt wedi magu digon o brofiad eto i gyflawni'r gofynion hynny'n llwyddiannus.

Fel arfer, gwnaed ymgais yn y papur Sylfaenol i ddewis pynciau sy'n ddigon cyfarwydd, a thestunau fydd yn rhan o brofiad beunyddiol unrhyw un sy'n darllen papur neu'n gwrando ar y newyddion. Siom a syndod, felly, oedd gweld enghreifftiau o ddefnyddio **egni** yn hytrach nag **ynni**, **cyfandir** yn lle **gwlad**, a ffurfiau ansafonol fel **twymo byd-eang / nwyon tai gwyr / alldafladau carbon deuocsid** pan fo'r ffurfiau safonol wedi hen ennill eu plwyf. Baglodd sawl un hefyd dros y gair *increases [in population or food production]*, a chynnig ffurfiau fel **tyfiannau/cynyddiadau** sy'n gwbl anaddas ac yn eithriadol o drwsgl. O edrych yn gyffredinol ar y cynigion a gafwyd yn y rownd hon, gellid tybio bod tuedd i rai o'r ymgeiswyr fynd ati i gyfieithu heb neilltuo amser yn gyntaf i ddarllen y darn yn ofalus a sicrhau eu bod yn deall yr union ystyr. Roedd hyn wedi arwain mewn sawl achos at gyfieithu llythrennol, slafaidd, fel a ganlyn:

*...from where it is grown to where it is ultimately purchased or consumed*  
**...o le mae'n cael ei dyfu i le mae'n cael ei brynu...**

*...fewer carbon dioxide emissions in transport...*  
**...llai o allyriadau carbon deuocsid mewn trafndiaeth...**

*...not all the advice you get online is from experts...*  
**...cofiwch nid y cyngor i gyd a geir ar lein sy'n dod o arbenigwyr...**

*People are rediscovering the benefits of buying local food.*

***Mae pobl yn ailddarganfod y manteision o brynu bwyd lleol.***

*How far your food travels has serious consequences for the climate*

***Mae pa mor bell mae'ch bwyd yn teithio'n cael canlyniadau difrifol ar yr hinsawdd***

*...block and report the people involved.*

***...rhoi rhwystr ar ac adrodd am y rhai sydd ynghlwm...***

*Don't forget to look out for your mates too.*

***Peidiwch ag anghofio edrych mas dros eich ffrindiau chwaith.***

Yn y ddau ddarn fel ei gilydd, gwelwyd yr enghreifftiau gorau o gyfieithu llwyddiannus pan oedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi meddwl am ystyr y gwreiddiol, ac yna wedi mynd ati i'w gyfleu mewn modd mor syml â phosibl yn Gymraeg, e.e.:

*In developed nations like ours...*

***Mewn gwledydd datblygedig fel ein gwlad ni...***

*...in most cases locally produced food is the best choice for minimizing global warming and pollution.*

***...yn amlach na pheidio, bwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol yw'r dewis gorau ar gyfer lleihau cynhesu byd-eang a llygredd.***

*A quick message can let them know you're there for them if they want to talk.*

***Gall neges sydyn roi gwybod iddyn nhw eich bod chi ar gael os ydyn nhw am gael sgwrs.***

*Importing food by air creates far more greenhouse emissions than imports by ship.*

***Mae mewnfario bwyd ar awyren yn cynhyrchu llawer mwy o allyriadau tŷ gwydr na mewnfario ar long.***

*But remember, not all the advice you get online is from experts...*

***Ond cofiwch, nid arbenigwyr sy'n rhoi'r holl gyngor a gewch chi ar-lein...***

*Don't forget to look out for your mates, too.*

***Paid ag anghofio am dy ffrindiau chwaith.***

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos yn gwbl eglur mai hanfod cyfieithu llwyddiannus yw llwyddo i gyfleu neges y gwreiddiol mewn modd naturiol yn yr iaith darged. Dyna yw'r nod, beth bynnag yw testun y gwaith i'w gyfieithu, a braf iawn oedd gweld enghreifftiau o'r math yma yng ngwaith llawer o'r ymgeiswyr. Da hefyd oedd gweld bod mwyafrif o'r ymgeiswyr wedi sylweddoli bod yr ail ddarn i'r Gymraeg yn galw am arddull lai ffurfiol, ac wedi cael ei ddewis er mwyn rhoi cyfle i ymgeiswyr amrywio'r cywair.

Elfennau llai boddhaol oedd y duedd i ddrysu rhwng **nac** a **nag**, yr anhawster a gafwyd wrth ddewis arddodiad priodol mewn sawl man megis **prynu o ffermwyr** a **mewnforion gan long/awyren**, a hefyd yr arfer rhyfedd a welwyd gan sawl un, sef efelychu'r arfer o gyfleu

OK mewn priflythrennau yn Saesneg, a chynnig ffurfiau chwithig megis **OCE/BYTH/IAWN/DDERBYNIOL** er nad oedd angen priflythrennau o gwbl yn y fan hon.

Er bod modd maddau ambell lithriad teipio neu wall sillafu mewn arholiad ar y lefel hon, gwelwyd nifer o'r ymgeiswyr yn methu â chyrraedd y safon o ran cywirdeb, ac roedd ffurfiau fel y canlynol wedi llithro drwy'r rhwyd:

**ar y ryngrwyd**  
**eich ffrinidau**  
**dod a hyn i ben**  
**yn dod o arbenigwyr**  
**ansawdd awyr gael** (gwael)  
**Gallwch hefyd defnyddio'r**  
**na dim byd sy'n wneud i chi**  
**Mae bwliol yn hollol annerbyniol**  
**effeith ddifrifol**

Mae'r ffaith bod y rhain i'w canfod yn y copi a gyflwynwyd i'r marcwyr yn awgrymu nad oedd yr ymgeiswyr dan sylw wedi manteisio ar gymorth y gwirydd sillafu, gan y byddai'r teclyn hwnnw wedi amlygu bron pob un o'r gwallau a nodir uchod. Yn yr un modd â'r amrywiol eiriaduron y caniateir mynd â hwy i'r ystafell arholi, a'r rhyddid i ychwanegu nodiadau ynghylch unrhyw gyfyng-gyngor sy'n codi yn ystod yr arholiad, carwn annog pob ymgeisydd i wneud yn fawr o'r adnoddau (megis y gwirydd sillafu) sydd ar gael ar eu cyfer, gan mai cam gwag yw gwrthod cymorth sydd wrth law.

Fel yr amlygwyd eisoes yn yr enghreifftiau a ddyfynnwyd, roedd y gwaith gorau yn y rownd hon yn llwyddo i gyfleu neges y gwreiddiol mewn Cymraeg uniongyrchol, naturiol, a braf yw medru llongyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus. Ochr yn ochr â hynny, fodd bynnag, fel mor aml yn y gorffennol, carwn annog yr holl ymgeiswyr, pa ganlyniad bynnag a gawsant y tro hwn, i fynd ati o ddifri i ddadansoddi eu gwaith cyfieithu, ac yn hytrach na chael eu baglu gan gystrawennau a mynegiant y gwreiddiol, treiddio o dan yr wyneb i gael hyd i'r ystyr a'r neges waelodol. O wneud hynny, bydd pawb ohonynt yn gallu datblygu eu crefft ymhellach.

## **Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg**

Nifer yr ymgeiswyr: 15  
Llwyddo: 9

Braf iawn oedd gweld 60% o'r ymgeiswyr yn llwyddo i gyrraedd y safon y tro hwn, a brafiach fyth oedd gweld bod 2 ymgeisydd wedi cyflwyno papurau gwirioneddol ardderchog, oedd yn haeddu marc rhagoriaeth. Eleni, am y tro cyntaf, bydd y Gymdeithas yn cyflwyno Gwobr Berwyn i ymgeisydd neilltuol am Aelodaeth Sylfaenol i'r Saesneg, a gwych o beth yw gallu dweud, nid yn unig bod teilyngdod, ond bod cystadleuaeth am y wobr honno.

Yn ogystal â'r rhai a lwyddodd, roedd ambell un o'r ymgeiswyr aflwyddiannus wedi cyrraedd y safon angenrheidiol yn un o'r ddau ddarn, felly at ei gilydd, gellir dweud bod yr arholwyr wedi'u plesio'n fawr gan safon y gwaith a gyflwynwyd yn y rownd hon o arholiadau.

Dyma rai enghreifftiau o'r cyfieithu llwyddiannus a welwyd yn y ddau ddarn:

*...mae'r cyfan yn dangos anwybodaeth dybryd ynghylch hanes Cymru*  
**...all of this illustrates a staggering level of ignorance about the history of Wales**

*Ar hyn o bryd mae gan Brydain drefn wedi'i seilio ar bwyntiau.*  
**Currently, Britain has a points-based procedure.**

*...“y cylch o haearn” oedd yr enw a roddwyd i'r gadwyn o gestyll ar draws Cymru – cestyll a adeiladwyd yn benodol er mwyn darostwng y Cymry.*  
**...“the ring of iron” was the name given to the chain of castles across Wales – castles specifically built to subjugate the Welsh.**

*... y bwriad oedd dangos “natur ansefydlog y goron”*  
**...the intention was to show the “unstable nature of the crown”**

*Mae'r ffaith bod Cadw heb amgyffred...*  
**The fact that Cadw did not grasp...**

*Onid beth yw'r pwyntiau hyn? Sut enillir nhw?*  
**But what are these points? How do you earn them?**

*Onid yw hi'n bryd i ni newid i ganolbwyntio llai ar gyfoeth...*  
**Isn't it time for us to start focusing less on wealth...**

*Bwriad gwreiddiol y cerflun oedd...*  
**The sculpture was originally intended to...**

*...wedi galw am ddileu'r cynlluniau dadleuol i gael cerflun ‘cylch haearn’*  
**...has called for controversial plans for an ‘iron ring’ sculpture... to be scrapped**

*Mewnfudo yw un o'r geiriau hynny sydd â rhyw werth cysylltiedig ganddo...*  
**Immigration is one of those words loaded with connotations...**

*Ŵyr mwyafrif y bobl sydd wrthi'n trafod ddim am yr hyn y maen nhw'n siarad amdano.*  
**Most of the people who are discussing it don't have a clue what they are talking about.**

Y bwriad yn yr arholiad Sylfaenol yw dewis darnau sy'n debygol o fod yn rhan o gylch profiad mwyafrif yr ymgeiswyr, naill ai oherwydd eu bod yn destunau cyfarwydd, neu oherwydd iddynt gael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Enghraifft o hynny oedd y darn cyntaf y tro hwn, ac er gwaethaf enghreifftiau da fel y rhai a nodwyd uchod, roedd yn syndod bod ymgeiswyr eraill fel petaent heb glywed am gerflun y ‘cylch haearn’ o gwbl,

gan i un alw'r cerflun yn **statue**, ac i ffurfiau eraill megis **iron circle/circular iron** gael eu cynnig amdano.

Cafodd nifer drafferth hefyd i ddewis yr union air ar gyfer y cyd-destun, e.e.:

**apprehend** (yn lle **grasp/comprehend**) am *amgyffred*

**speaker** (yn lle **spokesperson**) am *llefarydd*

**a flagrant ignorance** (yn hytrach na **woeful**) am *anwybodaeth dybryd*

**the unsettled nature of the crown** (yn lle **unstable**) am *natur ansefydlog y goron*

Er bod y gwaith ar y cyfan yn lân iawn o ran cywirdeb, rhaid bod yn wylidwrus wrth ddarllen ac osgoi ambell wall fel y canlynol, na fyddai'r gwirydd sillafu wedi eu hamlygu:

**...the feelings that the Welsh have for their county.**

**...peoples' feelings**

**...what their talking about**

a chafwyd rhai gwallau hefyd oedd yn dangos bod yr ymgeiswyr yn rhy gaeth i batrymau'r gwreiddiol:

**oppression over Wales**

**To tell the truth though** (*a dweud y gwir*)

**...some points are had for speaking English**

Mae enghreifftiau fel y rhain, gwaetha'r modd, yn dangos nad yw rhai o'r ymgeiswyr fel petaent yn ymwybodol pan fydd rhywbeth yn eu gwaith yn chwithig. Fel cynifer o weithiau o'r blaen, prif wendid yr ymgeiswyr aflwyddiannus oedd anallu i gyfleu ystyr y gwreiddiol mewn Saesneg oedd yn llifo'n naturiol. Yn union fel yr ymgeiswyr i'r Gymraeg, er mwyn gwella'u gallu yn hyn o beth mae angen iddyn nhw fod yn barod i gymryd cam yn ôl, meddwl o ddifri am y neges sydd yn y gwreiddiol, ac yna mynd ati i gyfleu'r neges hon mewn Saesneg sy'n argyhoeddi'r darllenydd.

Wrth gloi, felly, carwn longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, ac annog pawb a safodd yr arholiad i ddal ati i fireinio'n crefft, gyda golwg ar symud ymlaen i lefel Aelodaeth Gyflawn neu roi cynnig arall ar yr arholiad Sylfaenol. O gael mwy o brofiad, meithrin mwy o hyder, a darllen mwy o Saesneg safonol er mwyn ymdeimlo'n reddfol â phatrymau'r iaith honno, gallai nifer o'r ymgeiswyr a fu'n aflwyddiannus y tro hwn gyrraedd y safon angenrheidiol y tro nesaf.

Yn olaf, diolch unwaith yn rhagor i'r tîm cyfan am bob cymwynas, ac am hwyluso fy ngwaith yn fawr.

**Fiona Gannon**  
**Rhagfyr 2017**